**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-02(p.4)**

**Dyddiad:** 27 Chwefror 2002
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Gwella Iechyd 2000 – 2001

**Diben**

1. Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor bod Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Gwella Iechyd 2000 wedi'i gyhoeddi a'r trefniadau ar gyfer trafod adroddiadau yn y dyfodol.

**Cefndir**

2. Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Ebrill 1999 i wella ansawdd gofal am gleifion yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae pedair prif rôl gan y Comisiwn:

- **Adolygiadau –** Mae'r Comisiwn Gwella Iechyd yn cynnal rhaglen dreigl o adolygiadau llywodraethu clinigol yn holl ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd, gan gynnwys grwpiau gofal sylfaenol, grwpiau iechyd lleol a meddygfeydd, yng Nghymru a Lloegr.
- **Astudiaethau –** Monitro ac adolygu sut caiff canllawiau cenedlaethol (h.y. canllawiau Fframweithiau'r Gwasanaeth Gwladol a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol) eu rhoi ar waith.
- **Ymchwiliadau –** Ymchwiliadau annibynnol i fethiannau difrifol i systemau o fewn y GIG.
- **Cyngor ac Arweiniad –** Bydd y Comisiwn Gwella Iechyd yn arwain, adolygu ac yn hybu gwelliannau i ofal iechyd y GIG a gydag amser, yn dod yn fan casglu ar gyfer arfer gorau ac yn rhannu'i ganfyddiadau gyda gweddill y GIG.

**Yr Adroddiad**

3. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 14 Chwefror ac mae wedi'i ddosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth. Mae'n amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Comisiwn yn ystod 2000 – 2001

4. Mae gofyn i'r Comisiwn gynhyrchu adroddiad ar ei weithgareddau bob blwyddyn, ond nid oes gofyn iddo gyflwyno'r ddogfen gerbron y Cynulliad o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Fodd bynnag er mwyn bod yn agored a thryloyw ac er mwyn gweithio mewn partneriaeth, mae'r Comisiwn wedi cael gwybod y bydd rhaid i adroddiadau yn y dyfodol fod yn destun trafodaeth a chraffu llawn gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. Mae'r adroddiad yn ymdrin â:

- y prif themâu sy'n codi o'r adolygiadau llywodraethu clinigol yr ymgymerwyd â hwy
- crynodeb yr ymchwiliadau a gynhaliwyd, ynghyd â meysydd allweddol ar gyfer gweithredu pellach – mae'r adron hon yn cynnwys ymchwiliad Sir Gaerfyrddin
- hynt y rhaglen astudiaethau cenedlaethol
- arwydd o ba weithgareddau fydd yn cael eu cynnal yn y blynyddoedd sydd i ddod.

6. Mae'r adroddiad yn cynnwys adran ar wahân ynghylch y modd mae'r Comisiwn yn gweithredu yng Nghymru ac yn datblygu perthynas weithio agos gyda'r Cynulliad a phartneriaid eraill mewn gofal iechyd.

**Cyswllt gyda'r Comisiwn yn y dyfodol**

7. Mae'n hanfodol bod aelodau yn cael trafod materion yn uniongyrchol â chynrychiolwyr y Comisiwn a byddaf yn gofyn i'r Comisiwn fynychu'r Pwyllgor yn flynyddol at y diben hwn.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**